Gwyn a gwridog, hawddgar iawn

Caneuon Ffydd: Rhif 358

Gwyn a gwridog, hawddgar iawn,
yw f'Anwylyd;
doniau'r nef sydd ynddo'n llawn,
peraidd, hyfryd:
daear faith nac uchder nef
byth ni ffeindia
arall tebyg iddo ef:
Halelwia!

Ynddo'i hunan y mae'n llawn
bob trysorau:
dwyfol, berffaith, werthfawr Iawn
am fy meiau;
gwir ddoethineb, hedd a gras
gwerthfawroca',
nerth i hollol gario'r maes:
Halelwia!

Dyma sylfaen gadarn, gref
drwy fy mywyd;
credu, ac edrych arno ef,
yw fy ngwynfyd;
ynddo bellach drwy bob pla
y gobeithia';
ac mewn rhyfel canu wna':
Halelwia!

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

MYFYRDOD

Bu William Williams, fel Ann Griffiths (rhif 319), hefyd yn pori yng Nghaniad Solomon ac yn sylwi ar yr un sydd yno yn 'anwylyd' a 'gwyn a gwridog' (Can. 5:10 BWM). Cyfeirio y maent ill dau at Grist, yr hwn sydd yn anwylyd i'w bobl, sef ei Eglwys yn gyfan. Ond nid yn unig y mae Crist yn 'anwylyd' ei bobl, mae hefyd yn 'anwylyd' Duw.

Pan fedyddiwyd Iesu yn afon Iorddonen ar ddechrau ei weinidogaeth, fe edrychodd y Tad i lawr o'r nef a datgan, '"Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu"' (Mth. 3:17). Ailadroddodd ef yr union eiriau hyn pan oedd Iesu ar fynydd y gweddnewidiad (Mth. 17:5). Roedd Duw wedi ei blesio cymaint yn ei annwyl Fab nes iddo ddatgan hynny wrth y byd.

Y newyddion da i ni ydy fod Duw, nid yn unig wedi ei blesio yn ei Anwylyd, ond ein bod ninnau 'yn gymeradwy yn yr Anwylyd' hefyd (Eff. 1:6, BWM). Ydych chi'n cofio sut daru chi deimlo'r tro diwethaf i rywun ddweud rhywbeth cadarnhaol wrthych a'ch canmol yng ngŵydd eraill? Mae'r angen am dderbyniad yn bodoli'n ddwfn iawn oddi fewn inni, ac nid oes neb a all gynnig y derbyniad llawn yma inni yn fwy na Duw ei hun.

Yr ydym yn gymeradwy oherwydd bod Iesu yn gymeradwy. 'Doniau'r nef sydd ynddo'n llawn,' meddai Williams wedyn, ond 'daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd' (Ioan 1:14), ac fe rannodd o'r llawnder hwnnw gyda ninnau. Rhoddwyd inni 'bob bendith ysbrydol yn y nefoedd', oherwydd ein bod 'yng Nghrist' (Eff. 1:3, BWM). Sonia'r bennod honno o Effesiaid am y bendithion o gael ein dewis, ein mabwysiadu, a'n derbyn 'yng Nghrist'.

Ynddo'i hunan y mae'n llawn
bob tysorau:
dwyfol, berffaith, werthfawr Iawn
am fy meiau.

Dyma addewid sydd yn llawn anogaeth a chadarnhad mewn byd sydd yn chwilio'n barhaus am dderbyniad a chariad. Mor dda yw gwybod nad oes dim yr ydym wedi ei wneud nac y gallem ei wneud, a all newid ein sefyllfa o dderbyniad llawn yng Nghrist. Er, efallai bod eraill yn ei chael hi'n anodd derbyn rhai pethau amdanom, ac efallai ein bod yn ei chael hi'n anodd derbyn rhai pethau amdanom ein hunain, dylem roi'r gorau i ddifrïo ein hunain a chredu'r addewid ein bod 'yn gymeradwy yn yr Anwylyd'. Does dim rhaid inni ymdrechu am gadarnhad gan eraill, mae gwên derbyniad Duw arnom, ac ni fydd ei gariad tuag atom yn fwy nac yn llai yn y dyfodol na'r hyn yw ar hyn o bryd:

credu, ac edrych arno ef,
yw fy ngwynfyd.

GWEDDI

O Dad, am rannu pob bendith ysbrydol gyda mi yng Nghrist rwy'n fythol ddiolchgar. Pâr imi chwilio am gadarnhad a derbyniad llawn yn neb ond Iesu ei hun. Cymaint mwy sydd ganddo ar fy nghyfer o gredu a gobeithio ynddo. 'Canu wna': Halelwia.' Amen.